ISSN: 1473-3692

# Blewyn o Obaith

Rhifyn 471 · Mehefin 2020

Rhifyn digidol arbennig o'r Blewyn Glas - daw eto haul ar fryn!

## Llwyddiant mewn Ysgrifennu!

Llongyfarchiadau i Osian Pennant, Ystrad Fawr, Llanbrynmair ar ennill yr ail wobr a £40 gan Gymdeithas Maldwyn, am ysgrifennu traethawd Cymraeg i ddisgyblion blwyddyn 9 a 10. Teitl y gystadleuaeth oedd 'Ymson Milwr' ac fe ysgrifennodd Osian ei ymson fel Hedd Wyn. Mae Osian yn ddisgybl yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Da iawn ti, Osian, a dal ati.





Ar 16 Mai, cynhaliodd Swyddfa Genedlaethol Merched y Wawr Ŵyl Haf Rithwir lwyddiannus iawn. Yn y digwyddiad, enillodd Jo Gingell, un o aelodau Cangen Mawddwy, yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Dysgwyr Merched y Wawr. Gwobrwywyd Jo am ysgrifennu erthygl ar y testun 'Ein Dyfodol' ar y Lefel Uwch. Hefyd enillodd Jo y Tlws Rhyddiaith yn Eisteddfod y Dysgwyr. Llongyfarchiadau gwresog i Jo ar ei llwyddiant, ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn i ddarllen y gwaith.

## Cylchoedd Meithrin Lleol yn cyrraedd y tri uchaf!

Mae Mudiad Meithrin wedi cyhoeddi rhestrau'r tri uchaf ar gyfer ei Seremoni Gwobrau flynyddol sy'n cydnabod a dathlu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad yn ei ddarpariaethau.

Mae ychydig o newid i'r drefn o ddyfarnu'r enillwyr i'r categori Cylch Meithrin eleni – cafodd y tri uchaf eu dewis o bob 4 talaith gydag enillydd ym mhob talaith ac yna byddant yn cyhoeddi un o'r enillwyr yma'n enillydd cenedlaethol.

Cyfarfu'r panel gwobrwyo yn ddigidol ar ddiwedd mis Mai a dewiswyd y tri uchaf ym mhob categori. Braf yw gallu llongyfarch dau o Gylchoedd Meithrin bro'r *Blewyn Glas* ar gyrraedd y tri uchaf mewn dau gategori eleni, a hynny yn yr un categoriau. Llongyfarchwn Cylch Meithrin Glantwymyn a Chylch Meithrin Machynlleth ar gyrraedd y safleoedd uchaf yn y categoriau 'Pwyllgor' a 'Cylch Meithrin Gogledd Ddwyrain'. Dilynwch y dolenni yma i wylio'r fideos oedd yn cyhoeddi'r tri uchaf yn y ddau gategori:
https://www.facebook.com/watch/?v=2458247837729184
https://www.facebook.com/watch/?v=1192477024429915

Bwriedir cynnal y Seremoni Gwobrau yn Theatr y Werin, Aberystwyth ar 17eg o Hydref eleni, yn ddibynnol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal digwyddiadau yn sgil Covid-19. Dymunwn yn dda i'r ddau sefydliad pan ddaw amser y Seremoni Wobrwyo, ac edrychwn ymlaen at gael rhannu eich llwyddiant yn dilyn y noson.





**papurblewynglas@gmail.com**

**Golygydd**: Manon Wyn, Glan Coegen, Cemaes, Machynlleth, Powys, SY20 9PR

**Panel Golygyddol**
Llifon Ellis, Eryl Evans, Gwenfair Glyn, Eirian Jones, Gill Jones, Iola Jones, Lydia Jones, Mari Lisa

**Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol**

**Swyddogion**
**Cadeirydd**: Gwilym Fychan, Felin Newydd, Abercegir (01650 511212)
**Ysgrifennydd**: Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458)
**Trysorydd**: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
**Dylunydd**: Elgan Griffiths

**Y Blewyn drwy'r post**
Swyddog postio'r papur: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
Pris y papur drwy'r post am flwyddyn - £25

**Newyddion/Llythyrau/Hysbysebion i'r Blewyn**
Dylid e-bostio unrhyw newyddion neu hysbysebion i:
papurblewynglas@gmail.com
neu bostio at Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458) maesterran@btopenworld.com
Noder: Gellir archebu cyfres o 6 hysbyseb am bris 5. Hyd at 1/8 tudalen: £10; Hyd at ¼ tudalen: £20; Hyd at ½ tudalen: £40
Tudalen gyfan: £80
Telerau cynnwys taflen
O natur ddiwylliannol: £20;
O natur fasnachol: £30
O natur fasnachol cenedlaethol: £60

**Diolchiadau**
**Swyddog Diolchiadau**: Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) sianmwyars@outlook.com
Cofiwch na ddylai Diolchiadau neu gyhoeddiadau fod dros 50 o eiriau. Amgaewch y tâl priodol sef £5 gyda'r cyhoeddiad mewn amlen gyda'i gilydd i Siân Evans os gwelwch yn dda – drwy'r post neu drwy law eich cysylltydd lleol. Byddwn yn cydnabod tâl o £10 neu fwy, neu unrhyw rodd nad yw'n ddiolchiadau, yn y rhestr Rhoddion.

Cyhoeddwyd gan bwyllgor y Blewyn Glas.
Argraffwyd gan Wasg Y Lolfa, Talybont.
Aelod o Gymdeithas Papurau Bro Cymraeg.

# Diolchiadau

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r Blewyn Glas:**

Iona, Arwel, a Wenna, (Post, Cwmllinau gynt)
John P Davies, 98 Bryn-y-gog, Machynlleth
Bet, Hendre, Cwrt

Dymuna Iona, Arwel, a Wenna, (Post, Cwmllinau gynt), ddiolch yn ddiffuant am bob galwad ffôn a cherdyn a dderbyniwyd wedi eu profedigaeth drist ddechrau Mai, pan fu farw eu chwaer, Carys, yn 71 oed yn Barlestone. Trefnir cyfarfod coffa pan fydd modd i bawb drafeilio a dod ynghyd unwaith eto.

Dymuna John a Huw Davies ddiolch am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a gawsant gan drigolion ardal y Blewyn Glas a thu hwnt, yn dilyn marwolaeth Mairlynne. Hefyd am y cyfraniadau hael i Gronfa Ysbyty Gymunedol Machynlleth ac Aren Cymru. Diolch o galon i bawb.

Hoffai Bet, Hendre, Cwrt ddiolch yn fawr i bawb anfonodd gyfarchion iddi ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

# Daw eto haul ar fryn ...

**Fe ddaw eto haul ar fryn** oedd y llinell i'w hateb.

Diolch iti, Lydia, am y tri chynnig. Dyma nhw:

Caiff llythyr Boris fynd i'r bin.
Caf eto fynd ar 'cruise' 'fo Wyn.
A chyfle 'to i fynd am sbin.

Yn anffodus, dim ond ti sydd wedi cystadlu. Mae'r tair llinell yn amserol ac yn ddigon derbyniol, ond mae'r llinell 'Caiff llythyr Boris fynd i'r bin' yn rhedeg yn esmwyth ac yn cyfleu teimladau pob un ohonom, dwi'n siŵr, felly y llinell gyntaf sy'n mynd â hi y tro hwn. Diolch, Lydia.
*Gwilym*




**Blewyn Glas**
cysylltwch â ni
**papurblewynglas@gmail.com**

# Gemau Plant

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – does dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, *'hide-and-seek'*.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha' peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at: *Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*

## Llanbrynmair

**Llwyddiant Eisteddfodol**

Llawenydd mawr i ni yn Llanbrynmair oedd deall fod Mared Fflur Jones o Ddolgellau, wyres i Mrs Heulwen Jones a'r diweddar Mr Oswald Jones, Llwyncelyn, Talerddig, wedi ennill Tlws y Prif Lenor yn Eisteddfod-T yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.



**Raymond Heard**

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr Raymond Heard, bu farw ddydd Sadwrn 9fed o Fai yn 87 mlwydd oed. Bu'n byw yn Ivy Cottage, Bont Dolgadfan ac ym Mrynsiriol, Llan gyda'i ddiweddar wraig, Enid, cyn ymgartrefu yn Y Drenewydd, lle bu'n byw tan yn ddiweddar. Dan yr amgylchiadau presennol, nid oedd yn bosib cynnal angladd cyhoeddus ond gwnaed gorymdaith drwy bentrefi Bont a Llan i ffarwelio ag ef ar ddiwrnod ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth, ble daeth amryw o'i gyn gymdogion allan i ddangos eu parch a thalu teyrnged i Raymond. Cydymdeimlwn â'i fab, Gareth a'i briod, Hayley a'i wyrion, Tom a Becky, sy'n byw ym Mhontdolgoch. Cofiwn am y cysylltiadau i gyd yn eu chwithdod o'i golli.

**Profedigaeth**

Dydd Iau Mehefin y 4ydd, gyda thristwch daeth y newydd am farwolaeth Mrs Mair Evans, Pontarddulais, gynt o Froniaen, Llanbrynmair, pan oedd ei ddiweddar ŵr, y Parchedig Caradog Evans yn weinidog yn yr Hen Gapel, o 1971 i 1978. Cydymdeimlwn â Rhodri a Geraint eu meibion yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl ac arbennig iawn.

## Bontfaen ac Uwchygarreg

Miss Catrin Davies, Godre'r Graig
(01654 703226)
puddles3dragons@yahoo.co.uk

**Wyresau Newydd**

Llongyfarchiadau i Stephen a Beryl Dixon, Orwyn ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed efeilliaid, Betty Lyn a Wynni Del i Aled a Nicola yng Nghemaes yn ddiweddar. Dwi'n siŵr fod Gwenni a Charlie wrth eu boddau gyda'u dwy chwaer fach newydd ac y bydd 'na dipyn o sbwylio.

## Cwmllinau

Mrs Eleri Waters
elericwm@hotmail.com

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion trist ddechrau Mai am farwolaeth Carys, (un o blant y Post gynt) yn Barlestone, Swydd Caerlŷr.

Mae'r teulu bellach ar wasgar – meibion Helmut a Carys - Mark, yn gweithio'n Llundain, a Neal a'i deulu yn byw yn Japan, Iona yng Nghaer, Wenna yn Runcorn ac Arwel ym Mryncrug. Oherwydd gwaharddiadau presennol Cofid-19 doedd dim modd cynnal angladd arferol, felly fe drefnir cyfarfod coffa yn Barlestone, pan fydd modd i bawb drafeilio a dod ynghyd unwaith eto. Estynnwn bob cymdymdeimlad at y teulu.

**Cofiwch os ydych am brintio'r Blewyn o Obaith, eich bod yn dewis yr opsiwn 'portrait' ac yn ticio'r blwch 'fit' fel ei fod yn ymddangos yn gyfan ar bapur A4.**

## CLWB 300

**Dyma restr o enillwyr Mehefin 2020:**

£50 - Glenys Jones, Rhydyfelin,Talerddig, Llanbrynmair.
£40 - Ethelwen Davies, Frondeg, Aberhosan.
£30 - Annie Glaze, Pantyronnen, Aberangell.
£20 - Muriel Pryce, 1 Caemaenllwyd, Machynlleth.
£10 - Lowri Hughes, Bronderwgoed, Pennant, Llanbrynmair.

# Machynlleth

Gail Jenkins, Caffi Alys
01654703336 / caffialys@yahoo.com

**Mairlynne Davies**



Ar Fai 7fed eleni bu farw un o gymwynaswyr ffyddlonaf Machynlleth a'r fro, sef Mairlynne Davies, 98 Bryn-y-gog. Fe'i ganwyd 83 o flynyddoedd yn ôl ym Mrynaman yn Sir Gaerfyrddin. Mynychodd Ysgol Gynradd Brynaman, Ysgol Ramadeg Rhydaman cyn graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Bu'n athrawes yn Rhydaman, ac yna crwydrodd i fyny i gyfeiriad y Canolbarth gan ddysgu yn Ysgolion Rhydgaled, Capel Bangor ac Eglwysfach yng nghylch Aberystwyth, cyn priodi John a hanai o'r un ardal â hithau yn Nyffryn Aman.

Roedd John yn athro chwaraeon ym Machynlleth ers 1960. Priodwyd y ddau ym 1962, a'r flwyddyn ganlynol adeiladwyd eu cartref newydd yn y dre', sef Perlys a phenodwyd Mairlynne yn athrawes Gymraeg yn yr Ysgol Uwchradd hefyd maes o law.

Buont yn briod am 58 o flynyddoedd, ac roedd ganddynt un mab, sef Huw, ac yn ddiweddarach, Meriel a Byron eu hwyres a'u hŵyr. Mae Huw, sydd hefyd yn ŵr gweddw ers rhai blynyddoedd, wedi bod yn gefn mawr i John yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â hwy fel teulu yn eu colled.

Ni fu bywyd yn garedig wrth Mairlynne bob amser fel y gŵyr llawer ohonoch yn dda. Cafodd drawsblaniad aren ym 1986, a hynny wedi dod â chymhlethdodau yn ei sgil. Ni ddangosai hyn i neb na chwyno hyd y diwedd - 34 o flynyddoedd! Roedd ei dewrder a'i phenderfyniad yn ddi-ben-draw. Nid oedd 'ildio' na 'rhoi lan' yn rhan o'i geirfa.

Bu'n aelod ffyddlon o Gapel y Graig ar hyd ei chyfnod ym Machynlleth hyd nes iddo gau. Bu'n ysgrifennydd yno am nifer helaeth o flynyddoedd, ac yn wir, hi oedd un o gonglfeini'r achos trwy gyfnod digon heriol.

Roedd Merched y Wawr yn fudiad agos iawn at ei chalon, a bu'n dal swyddi yn lleol ac yn rhanbarthol dros y blynyddoedd. Cafodd lawer o bleser yn y cyfarfodydd amrywiol, yn eu siaradwyr, eu tripiau a'u gwledda.

Bu'n aelod o banel golygyddol y *Blewyn Glas* hefyd rai blynyddoedd yn ôl bellach, ac mae diolch y papur hwn yn fawr iddi am ei hymroddiad a'i theyrngarwch bob amser.

A dweud y gwir, dyna fyddai ei hanes bob tro – rhoi cant y cant, boed yn fudiad lleol neu yn achos dyngarol cenedlaethol.

Rhaid sôn am y Cylch Llenyddol, wrth gwrs. Hi oedd yr ysgrifennydd ers blynyddoedd lawer. Gweithiai'n dawel a di-ffws yn rhoi rhaglenni tymor wrth ei gilydd. Er mor wael a gwan ydoedd yn ei hwythnosau olaf, roedd wedi paratoi Rhaglen 2020-2021 – y siaradwyr, y llywyddion a gweinyddwyr paned i gyd yn eu lle. Er bod llawer o waith a threfnu ynghlwm wrth swydd ysgrifennydd y Cylch Llenyddol, roedd yn waith oedd wrth fodd ei chalon.

Cawsom oriau lawer o fwynhad yn ei chwmni hi a John. Bu cryn dipyn o drafeilio dros y blynyddoedd yng Nghymru a thu hwnt. Aethai criw ohonom am seibiant i wahanol wledydd ar y Cyfandir nifer o weithiau, a byddai Mairlynne yn anfon sawl cerdyn post yn selog bob tro.

A beth am y cardiau pen-blwydd niferus yr anfonai bob blwyddyn? Roedd ganddi restr drefnus o enwau a dyddiadau pen-blwydd di-ri teulu a ffrindiau, ac ni fyddai byth yn anghofio anfon ei chardiau.

A'r peth pwysig hwnnw – paned o de. O! nage wir, 'dishgled' o de bob tro, dalier sylw! Te gwan iawn 'heb lath na shwgir', a dyna hi Mairlynne yn ei seithfed ne'.

Roedd tafodiaith Dyffryn Aman cyn sicred ag erioed ar ei gwefus. Byddai'n ymhyfrydu yn ei thafodiaith a'i hacen, a honno'n parhau i fod mor groyw ar ei gwefus â'r diwrnod cyntaf y daeth i Fachynlleth.

Byddem wrth ein bodd ein pedwar yn teithio i lawr i'r De trwy Geredigion. A'r hyn a wnâi'r daith mor bleserus oedd troi i ffwrdd o'r ffordd fawr o dro i dro i gyfeiriad y traethau, am Gei Newydd, Cwmtydu, Llangrannog, Tresaith... i sawru awel y môr - a chael 'dishgled', wrth gwrs!

Mae hiraeth ar ei hôl, ond diolchwn am gael ei hadnabod.

**MAIRLYNNE**

Ni ildiodd ei gwroldeb - hi erioed,
A thrwy holl diriondeb
Ei hanian hi, welai neb
Yr hyn oedd dan yr wyneb.

*Gwilym ac Ann Fychan*

**Ydych chi'n gwybod am rywun sydd heb ddyfais i fedru darllen y Blewyn o Obaith? Os oes gennych chi argraffydd adref, beth am argraffu'r rhifyn yn ddu a gwyn i'r person hynny neu hyd yn oed dim ond y tudalennau mwyaf apelgar iddyn nhw? Diolch am eich cefnogaeth.**




**Newyddion rhifyn Gorffennaf i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 12fed o Orffennaf os gwelwch yn dda.**

Chwilio am gefnogaeth COVID 19?
Ddim yn siwr i bwy i ofyn?

Cysylltwyr Cymunedol
Rydym ar agor ac yma i'ch helpu a'ch cefnogi
Helpu unigolion
Cefnogi Grwpiau Cymunedol
Helpu i ganfod cefnogaeth leol

Cysylltydd Lleol
Machynlleth a Bro Ddyfi
Sioned Pritchard

Llun-Gwener 9yb - 8yh
01597 828649
cysylltwyr.cymunedol@pavo.org.uk



PAVO
Powys
A Company limited by guarantee 3522144 Registered in Wales | Registered Charity No: 1069557

## Glantwymyn

Heledd Glyn Jones, Cynefin
heleddg@hotmail.com / 07837 781795

**Gwneud ei rhan i'r gymuned**
Aeth Efa Bleddyn, Nantymynydd o gwmpas pentre' Glantwymyn ddechrau'r mis a chasglu llond sach bin o sbwriel o ochr y ffordd. Chware teg iti, Efa am wneud dy ran i gadw Glantwymyn yn daclus.



**Hen Nain**
Llongyfarchiadau mawr i Gwyneth Jones, Stores ar ddod yn "hen Nain" (!) i Mia Vivian Hamilton draw yn Talkapuna, Seland Newydd. Ei gor-wyres gyntaf! Dwi'n siŵr eich bod yn mwynhau gweld lluniau o Mia fach!

# Planna Fwyd!

**Byddin y Tir yn barod i helpu Ffermwyr a Thyfwyr Lleol!**
Y tu hwnt i ffa pob, pasta sych a rôl toiled, mae'r prynu panig diweddar mewn archfarchnadoedd wedi dangos bod ein cadwyni bwyd byd eang yn fregus. Mewn ymateb, mae menter gymunedol, Planna Fwyd!, wedi'i sefydlu i hyrwyddo diogelwch bwyd yn Nyffryn Dyfi.

Mae Planna Fwyd! yn chwilio am ffermwyr lleol sydd â diddordeb mewn arallgyfeirio eu cynhyrchiad bwyd, tra hefyd yn sefydlu rhwydwaith o weithwyr tir gwirfoddol. Mae ffermwyr yn cael cynnig cyfle i wneud cais am help gan Fyddin y Tir gwirfoddol hwn.

Meddai Katie Hastings, Cyfarwyddwr Mach Maethlon ac aelod o Planna Fwyd!

"Er mwyn cryfhau'r economi fwyd lleol, rydyn ni am annog defnydd tir amrywiol yn Nyffryn Dyfi. Yng Nghymru dim ond 0.1% o'r tir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu ffrwythau a llysiau. Rŵan yw'r amser perffaith i gymryd rhan a helpu i gynyddu ein cynhyrchiad o lysiau lleol trwy dyfu ar raddfa maint cae.

Deilliodd Planna Fwyd! o Mach Maethlon, sy'n sefydliad cymunedol sy'n gweithio i wella cyflenwad bwyd a chynaliadwyedd lleol, a'r grŵp gwirfoddol Ymateb Gymunedol Corona Machynlleth (MCCR), sy'n cefnogi pobl ym Machynlleth a'r ardaloedd cyfagos yn ystod y pandemig coronafeirws.

Dywedodd Paul Bullen, arlunydd lleol a thyddynnwr, sydd wedi trosi porfa i dyfu gwelyau ar gyfer bresych, india-corn, pwmpenni, letys a thatws.

"Rwy'n rhentu'r tir gan ffermwr, na fyddai fwy na thebyg wedi gadael imi wneud hyn pe na bai'n syniad da."

Mae'r grŵp wedi cysylltu â Chyngor Tref Machynlleth, wrth weithio i sicrhau eu bod yn cael asesiadau risg llym, ac yn cadw at holl ganllawiau'r Llywodraeth yn ystod y Meudwyo Mawr. Dywedodd y Cynghorydd Sir a Thref Michael Williams.

"Beth bynnag y gellir ei wneud i helpu tyfu llysiau, salad a ffrwythau yn lleol, rwy'n cefnogi'n llwyr. Yn yr amseroedd cythryblus hyn mae'n dangos i ni gyda sicrwydd llwyr mai cynaliadwyedd yw'r ffordd iawn ymlaen, i'n pobl, i'r economi leol a'r amgylchedd. "

Dywedodd Simon Griffiths, gwirfoddolwr Byddin y Tir.

"Mae pobl yn tueddu i anghofio am y llu o fuddion iechyd rydych chi'n eu cael yn gweithio y tu allan. Rwyf wedi dod o hyd i bwrpas newydd yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Rwy'n cael ymarfer corff, yn cysylltu â natur a gallaf hefyd fod yn gynhyrchiol. "

Dewch yn rhan o'r mudiad bywiog hwn trwy ymweld â http://plannafwyd.machynlleth.cymru

i gofrestru fel Tyfwr Lleol Maint Cae ac i gael Byddin y Tir ar Ddiwrnodau Gwaith ar eich fferm.

**Cysylltwch â:** Katie Hastings
katie@machmaethlon.org

# Argyfwng Hinsawdd Machynlleth

Mae'r pwyllgor i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd ym Machynlleth yn dal yn brysur yn y cyfnod anodd hwn, ond yn cwrdd ar y we erbyn hyn. Gobeithir y bydd y cyfle a geir yn ystod y cyfnod presennol i sylwi ar natur o'n cwmpas, yn creu cymdeithas fydd yn frwd i ddiogelu ein hamgylchedd anhygoel i'n plant yn y dyfodol.

Mae 'Gweithrediad Hinsawdd Machynlleth' yn edrych am wirfoddolwr neu wirfoddolwyr fyddai'n mwynhau cefnogi a chreu cylchlythyr cyson i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar brosiectau yn deillio o'r is bwyllgorau gweithredol, yn ogystal â datblygu a llwytho ein gwefan newydd. Byddai'r gallu i weithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddelfrydol ond nid yn angenrheidiol.

Y taliad fyddai diolch a gwybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth er mwyn y dyfodol. Mae neges 'Heddwch ac Ewyllys Da' ieuenctid Cymru wedi bod yn mynd allan i'r byd ers 1922, ac wedi cael ei chyfieithu i dros hanner cant o ieithoedd. Y tro hyn, oherwydd yr amgylchiadau presennol, fe gafodd ei haddasu. Mae'n werth i ni ail glywed y neges.

**Cysylltwch â ni ar machynllethclimate@gmail.com neu hinsawddmachynlleth@gmail.com**



STOPIO'R CLOC AC AIL DDECHRAU
Annwyl bobl y byd.
Mae natur wedi ein hysgwyd-
mae'n galw arnom i ddeffro.
Ry'n ni'n gwario'n ddiangen,
Ry'n ni'n gwastraffu'n ddiangen,
Ry'n ni'n teithio'n ddiangen.

Annwyl Ieuenctid y byd,
Nawr yw'r amser i ddiolch,
Diolch i'r rheiny ar y rheng flaen
sydd wedi ein helpu i gario 'mlaen
Gyda'n gilydd gallwn greu dyfodol gwell,
Dyfodol o edrych ar ôl ein hunain ac eraill.
Dyfodol o gofio am y rhai llai ffodus yn ein cymunedau,
Dyfodol o ofalu am y blaned
Gweithredwch!

Mae neges ein hieuenctid yn adlewyrchu eu dyheadau am fyd gwell ar ôl i'r "GOFID" gilio. Gobeithio y cânt eu gwireddu ac y byddwn ninnau, oedolion, yn eu cefnogi yn ôl ein gallu.

# Cadw'n brysur yn y Cloi Mawr!

## Gan Efa Bleddyn Jones

Pwy fysa'n meddwl... y byddai dyn yn ei bedwardegau yn dewis adeilad wedi'i wneud o wydr i'w gael yn ei ardd dros dwba poeth, neu gasibo? Neb ond dad! Yndech, mi rydach chi'n gywir, ma' dad wedi tynnu rhyw dŷ gwydr i'w ben yn ystod y deng wythnos yma o hunan-ynysu, ond cofiwch, nid prynu un dros y we a hwnnw'n cyrraedd yn ddiffwdan i'w le fel pin mewn papur wnaeth o. O na! Ond cael un ail law o Ddinas Mawddwy oedd wedi bod yn sefyll yno ers deugain mlynedd a mwy yn y gwynt a'r glaw!

Suddodd fy 'nghalon i pan gyrhaeddais i'r ardd, wrth i mi sylweddoli be yn union oedd ar y gweill. Roedd y blerwch o'n blaenau yn hollol gyferbyniol i dŷ gwydr "fel newydd", chwedl dad! Golygfa o wydrau'n dafelli miniog fel dannedd crocodeil a gorchudd budr o bob math o lystyfiant yn gôt dyllog, afiach drosto. Agorais y drws rhydlyd a gwingodd fy nghlustiau wrth i wich annaearol fy neffro. Doedd y tu mewn ddim llawer gwell na'r tu allan! Wyneb dad oedd yn bictiwr; ei lygaid wedi agor led y pen pan welodd y llanast racs llawn craciau. Ond cysurodd dad ei hun, wrth iddo atgoffa'i hun fod y ffrâm yn un gadarn..!



Y diwrnod hwnnw, mentrais i a dad ei ddatgymalu o'i hen gartref oedd wedi pasio'i ddyddiad ddegawdau yn ôl! Cyfrais i'r gwydrau ar y to, ac roedd 36 ohonynt! Er mwyn sicrhau fod gwynt ddim am deithio drwy dwll bychan a'i ddinistrio roedd angen y gwydrau i gyd arnom ni, sef cyfanswm o 88 ffenest!!! Allwch chi goelio? Ond nid rhyw dŷ gwydr "6 wrth"4 oedd o, ond "12 wrth "8! Meddyliais yn syth am yr amser roedd hyn am ei gymryd; roedd angen tynnu pob gwydr o'i le a cheisio eu cadw'n gyfa, mynd a nhw'n adref rhywsut a'u hail-osod fel jig-sô anferth tryloyw yn ei gartref newydd. Am strach! Yn enwedig pan oedd yr haul yn tywynnu arnom a'r gwres chwilboeth yn ein dilyn i bobman. Ond, er mawr syndod, mi lwyddon ni i gadw pob gwydr yn gyfa ond am un, ond mi roedd pymtheg ar y mwyaf wedi torri yn barod!

Carion ni'r holl wydrau ar hyd llwybr cul lle'r oedd amrywiaeth o blanhigion o goed i wrychoedd yn poeri arnom fel gwallt bwgan brain! Gosodwyd pob un ar eu hochrau mewn cwpwrdd siâp petryal, pren a rheiny'n sathru ar hanner dwsin o hen "shits" ym mhen ôl y car. Ro'n i'n nerfau i gyd... yn dychmygu'r darnau mân o wydr ar hyd cefn y car pe byddai dad yn gwneud un cam o'i le.. mor fach â sigl sydyn y car ar gylchfan Mallwyd. Fedrwn i glywed y crensian cynta' a'r tasgu , a rheiny'n fy nharo fel pinnau bach ar hyd fy nghorff. Dyma ni'n dechrau symud heb boen yn y byd ar y tu allan, ond ar y tu mewn, dwi'm y siŵr am dad, ond mi roedd y 'nghorff i'n sgrechian! Symudon ni'n araf fel lori Mansel Davies ar hyd y ffordd dawel... cyrraedd cylchfan Mallwyd. Cefais deimlad o ryddhad wrth i dad ddeud ein bod ni wedi cyrraedd "hanner ffordd" a gwên lydan ar ei wyneb!

Buodd dad a Haydn ei ffrind yn gosod a mesur darnau o bren ar y llawr er mwyn i'r tŷ gwydr sefyll arnynt. Buon ni'n golchi'r gwydrau wedyn, yn lân efo sbwnj a *fairy liquid* a brwsh weiars, a'u gosod yn braf ar y gwair. Yr unig beth oedd yn ansicr, oedd a oedd ffrâm y gampwaith (hyd yma) ddigon cryf i allu cadw'n gyfa' ar y daith o 10 munud draw i Lantwymyn. Heb ffrâm, doedd dim tŷ gwydr!! Ond, diolch byth, cyn pen dim cyrhaeddodd ar drelar! Roedden ni'n falch o glywed bod dioddef y gwres, treulio oriau yn ei ddatgymalu a defnyddio llond bwced o amynedd ddim wedi mynd yn ofer a daeth Paul Hughes i'w sgriwio fo'i lawr!!!

Ar ôl ei osod yn ei le, cwestiynu o leia' pum person os oedd ganddynt wydrau sbâr a rhoi'r gwydrau i gyd i mewn yn eu lle cywir, ailgylchu da de! Roedd o'n edrych yn syndod!! Roedd o'n edrych fel y dylai fod wedi bod yna ers hydoedd yn enwedig ar ôl i ni blannu hadau ar gyfer tyfu pob math o bethau megis tomatos, letys, ciwcymbr, *aubergine (planhigyn wy),* pupur o bob lliw a llawer mwy!! Mae'n saff dweud fy mod i wedi ennill fy rwtin oedd ar goll ers tri mis, yn ôl! Dwi'n dyfrio'r holl bethau'n ddyddiol, ddwy waith y dydd a syllu arnynt yn amsugno'r dŵr fel y byddwn yn syllu ar fabi yn amsugno ei laeth! Mae popeth yn tyfu'n ardderchog hyd yma o be wela' i. Dydw i ddim yn siŵr am y ddau flodyn haul gyrhaeddodd yn iach gan Sarah ond dwi'n gobeithio bod Taid wedi eu hailfywiogi nhw ar iddo eu dwyn! Well i fi fynd rŵan, mae'r rhaglen Byw yn yr Ardd ar fin dechrau gan ein bod ni angen yr hynny o dips y gallwn ni gael!

**Blewyn Glas**

cysylltwch â ni
**papurblewynglas@gmail.com**

# Aros Adra

## Gan Mared Fflur Jones

Enillydd Tlws y Llenor Eisteddfod T yr Urdd eleni ac aelod o C.Ff.I Dinas Mawddwy

"Tyd rŵan Twm bach, dos i newid".

"M'isio mynd i weld hi".

"Fyddi di'n teimlo'n well ar ôl cyrra'dd." Ceisiodd Eleri gysuro'i mab, a thawelu ei meddwl ei hunan. Teimlai'n euog yn torri ar draws ei chwarae, ac yntau'n edrych mor fodlon yn ei fyd bach ei hun yn arwain y gwartheg bach plastig i fewn i'r sied dros y gaeaf a'r ffarmwr bach ar eu holau.

"Fyddwch chi ddim yn hir sdi," ceisiodd eto, er nad oedd hi eisiau iddo fynd mwy na chur yn ei phen.

Edrychodd arni fel petai hi newydd osod platiaid o gachu cath ar dôst o'i flaen a'i annog i'w fwyta'n ginio.

"Dwi'm yn goro grando ar ti enwiê, dim ti di mam go iawn fi," meddai Twm gan bwysleisio bob gair yn unigol, cyn ei heglu hi i'w 'stafell i guddio.

Teimlodd Eleri ei eiriau yn ei tharo fel gordd. Mor greulon gallai geiriau plentyn fod. Ond nid ei fai o oedd hyn, meddyliodd wedyn. Dim ond dweud y gwir oedd o. Dyna oedd yn brifo fwya'. Er mai hi oedd yno i sychu'i ddagrau, i weld ei lwyddiannau, ag i ddwrdio'r diawl bach pan fo angen. Er ei bod hi'n ei garu gyda'i holl enaid, cariad na wyddai bod modd ei deimlo, nid hi roddodd enedigaeth iddo. Hi oedd ei fam ym mhob diffiniad o'r gair, oni bai am yr un manylyn, pwysig hwnnw.

Wedi cyfnod o syllu'n eiddigeddus ar y gwartheg yn nedwyddwch eu gwely o wair wedi'i greu o bapur sgrap, perswadiodd Eleri ei hunan i ymresymu un waith eto. Meddyliodd pa mor braf fyddai cyfnewid lle gyda buwch yr eiliad honno. Ymlwybrodd tuag at guddfan Twm. Roedd yn rhaid iddo fynd i weld ei fam heddiw, neu byddai Nia'r Swyddog Achos ar y ffôn cyn diwedd yr wythnos.

"Allwn ni fynd i'r caffi 'na ti'n licio ar y ffor' adre os tisho? Ti'n gwbo', yr un efo pop mewn poteli gwydr?" mentrodd Eleri, gan sicrhau ei bod yn aros un cam tu ôl i'r drws.

"Ddim yn bol ti nath fi tyfu na Mam?" gofynnodd Twm, yn amlwg wedi ystyried y cwestiwn yn ofalus iawn cyn gofyn.

"Naci, cariad," atebodd Eleri yn llawn edmygedd o ddewrder ei bachgen bach.

"Yn bol mam arall fi?"

Cytunodd Eleri a'r dagrau'n cronni yn ei llygaid. Eisteddodd ar waelod y gwely, gan wasgu Spiderman yn y broses.

"Es pryd dwi fa'ma efo ti a dad? Oni'n babi bach?" cwestiynodd eto.

"Ddim cweit babi bach, ond doeddet ti ddim yn hen iawn chwaith! Tua'r un oed a Caio bach drws nesa," atebodd Eleri a'i llais bron iawn a thorri.

Syrthiodd tawelwch dros yr ystafell. Gwelai Eleri'r difrifoldeb ar wyneb ei mab bychan wrth i'w feddwl bach rasio i feddwl am gwestiwn arall i'w ofyn.

"Sâl 'di mam arall fi, ia, Mam?"

Lloriwyd Eleri a daeth tawelwch fel tarth trwchus i oeri'r ystafell unwaith eto. Be' oedd hi fod i ddweud? Dweud y gwir wrtho a dweud nad oedd hi ffit i edrych ar ôl ei hunan heb sôn am blentyn? Ond be petai hi'n dweud celwydd wrtho, ac yntau'n cofio rhywbeth amdani? Cofio cael ei strapio yn y goetsh o fore gwyn tan nos efo potel o laeth a bisged bourbon yn ei law, tra roedd ei 'fam' yn difyrru ei hun mewn ffyrdd amgen

"Ia, 'na ti," atebodd ymhen hir a hwyr, a'i chalon yn curo fel peth gwyllt. "Ti'n gwbo' pan ti'n mynd i helpu Yncl Emrys adag wyna, a weithia ma' 'na ddafad yn ca'l mwy nag un oen yr un pryd d'oes? Weithia dydi'r fam ddim yn gallu edrych ar ôl y ddau neu dri oen yn iawn nacdi, a ma' Yncl Em yn rhoi un o'r wyn efo dafad arall sy' 'di colli un o'i wyn bach hi, dydi. Wel, rwbath fel 'na 'dio sdi".

"Bechod de," meddai Twm, fel hen ddyn yn darllen yr holl angladdau sydd ganddo i'w mynychu yn y papur.

Wrth syllu ar wyneb siriol ei mab, penderfynodd Eleri mai gwir oedd yr hen air wedi'r cyfan, ac mai bach oedd hedyn pob mawredd.

"Ia. Ti'n meddwl falla fysa ti'n licio newid wan 'ta i fynd i'w gweld hi? Falla nei di joio dy hun, tro 'ma?" meddai'r fam, gan deimlo poen ei geiriau ei hun i'r byw.

Edrychodd Twm arni am ennyd, cyn taflu ei freichiau o'i hamgylch yn un goflaid flêr.

"Dwi'm isio goro gwêl' hi, Mam. Dwisho aros adra. Aros fa'ma, efo ti."


# Croesair

**Ar draws**

1 Ystyfnig (6)
4 Mwynhau eich hun ar achlysur arbennig (5)
8 Darn o beiriant sy'n troi o gwmpas pwynt sefydlog (5)
9 Tref yng ngogledd Cymru (6)
10 Siarp (3)
11 Y diwrnod cyn heddiw (3)
12 Wedi diffodd (4)
13 Ffôs ddofn i gario dŵr i dir sych (6)
15 Drachefn (3)
18 Tŷ Esgimo (4)
19 Cywion mathau o anifeiliaid sy'n hela'u bwyd (7)
22 Bod yn ddrwg gan (6)
23 Enw dyn (5)

**I lawr**

1 Grŵp o gantorion (5)
2 Tymer (5)
3 Teyrngarwch (8)
5 Amcanion (6)
6 Ymosod ar rywun yn chwyrn (9)
7 Stori grefyddol (5)
13 Gêm awyr agored (6 )
14 Y bwriad i wneud niwed (6)
16 Budreddi (3)
17 Teclyn siafio (5)
20 Pentref yng Ngwynedd (4)
21 Heb fod yn syth (3)





## Cwis Chwaraeon

Gyda'r byd chwaraeon yn dal i fod ar stop, beth am gwis bach arall i basio pum munud? Atebion ar y dudalen ôl.

1. Pa mor hir yw pwll nofio olympaidd?
2. Pa seiclwr oedd hefyd yn cael ei alw'n Cannibal?
3. Faint o chwaraewyr sydd gan dîm hoci ar iâ?
4. Ble gynhaliwyd gemau olympaidd 1992?
5. Pa ddau chwaraeon sy'n cael eu chwarae ar fwrdd gwyrdd?
6. Ym mha chwaraeon allwch chi ennill y Cwpan Davis?
7. Pwy yw'r chwaraewr rygbi sydd wedi ennill y nifer fwyaf o gapiau i Gymru?
8. Beth yw enw stadiwm pêl-droed Barcelona?
9. Pa stadiwm yw'r mwyaf yn y byd?
10. Pa chwaraewr pêl-droed sydd wedi sgorio'r mwyaf o goliau i Gymru?





# Pawb yn Elwa

## gan Rob Evans

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu â'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r poen yn cynyddu pob diwrnod - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus mod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn efo bob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym mae o'n tyfu, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.

Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddyn gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wlân cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.

Maen nhw'n dweud y siopau trin gwallt fydd yr olaf i ail agor a chlywais rywun yn sôn am rywbryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o'n nghof ymhell cyn hynny!

Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd. Roedd yr adar yn brysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "Sbïa ar y pen yna," dywedodd yr un "bydden ni ddim llawer o amser yn adeiladu nyth yn fanna!" "Ti'n iawn" meddai'r llall "mae digon o ddefnydd yna i greu nyth yn ddigon mawr i chwech o blant!"

Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau yn trio fy ngorau i ddangos dim diddordeb o gwbl ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Ni fuaswn yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond mi oedd un ffordd y buaswn yn gallu helpu, a helpu fi ar yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i thycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond erbyn mis Gorffennaf mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu fi edrychwch ar *Twitter* achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar *Twitter* ac yn twîtio'r stori i'r holl fyd.

Cadwch yn saff!




Cofiwch hefyd bod hi'n bosib cael mynediad i holl sesiynau Clwb Cylch, sydd erbyn hyn ar wefan 'Youtube': https://www.youtube.com/playlist?list=PLrUunC9eiE2y_6dWIrBO4-lg61e6Ou_Dz



# **Profiad Cyfnod Clo** – Ilan Hughes




Does dim dwywaith nag ydy'r wythnosau diwethaf yma ers dechrau'r cyfnod clo wedi cael effaith mawr arnom i gyd rhyw ffordd neu'i gilydd. Y mae pob un ohonom wedi gorfod addasu a newid cryn dipyn ar ein bywyd bob dydd tra yn gorfod g'neud y gorau o'r sefyllfa, be bynnag ydy honno. Yma, cawn gipolwg ar sut y mae Ilan, Tynohir, Derwenlas, myfyriwr sydd ar ei flwyddyn gyntaf ar gwrs Diploma Technegol Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth yng Nholeg Cambria Llysfasi yn ymdopi â'r newidiadau.

"Pan ddaeth y 'lockdown' i rym roedden ni wrthi 'fflat out' yn wyna yma, ac felly pan gyrhaeddais i adre doedd dim amser i feddwl gan ein bod mor brysur ac felly, doedd pethe fawr gwahanol i'r hyn fyddai yn digwydd yma bob blwyddyn. Dim ond ar ôl i'r wyna ddod i ben, heb fedru dychwelyd i'r coleg nag ychwaith fynd i unman arall, y dechreuais i deimlo bod pethau yn wahanol i'r arfer.

Roeddwn wedi edrych ymlaen yn fawr at gael treulio 2 flynedd yn Llysfasi ond, ar ôl treulio dim ond 6 mis yno a sylweddoli mai dim ond blwyddyn arall sy'n weddill dw i'n teimlo fy mod, fel nifer o'm cyd-fyfyrwyr ar draws y wlad, yn colli allan ar brofiadau gwerthfawr. Ond, wedi deud hynny dwi'n hynod ddiolchgar fy mod yn iach ac yn byw mewn lle mor braf.

Y mae'r Coleg yn anfon gwaith ysgrifenedig ataf ar e-bost, fe fydda innau wedyn yn ei gwblhau a'i anfon yn ôl. Y mae'r system yma yn gweithio yn dda ond, dwi yn colli elfennau ymarferol y cwrs yn ogystal â'r gallu i drafod gyda myfyrwyr eraill a'r staff. Dydy cwblhau yr ymarferion adre ddim yr un fath â bod o fewn y dosbarth neu allan ar fferm y coleg yng nghwmni eraill. Dwi'n colli'r elfennau cymdeithasol a chwmniaeth ffrindiau y coleg hefyd. Wrth gwrs de ni mewn cysylltiad ar Snapchat a grwpiau eraill ond dydy o ddim yr un fath o gwbl a chael trin a thrafod pethe gyda myfyrwyr a thiwtoriaid wyneb yn wyneb.

Yn anffodus, oherwydd y Cofid-19 'ma doedd dim posib i mi fynd allan ar leoliad i wyna yn Sir Benfro nag ychwaith ar daith astudio i Amsterdam. Ond efallai, o ystyried, dydy'r cyfnod clo yma ddim wedi cael cymaint o effaith ar ffermwyr oherwydd ein bod wedi arfer â gweithio ar ein pen ein hunain. Un o'r llefydd y mae ffermwyr yn medru dod at ei gilydd i drin a thrafod yw'r marchnadoedd ond, oherwydd rheolau newydd sy wedi dod i rym gyda'r Covid-19 dydy hynny ddim yn bosib bellach. Yn ddiweddar, fe werthais i wyn Poll Dorset, a anwyd ym mis Rhagfyr, ym marchnad Machynlleth. Fel arfer, fe fyddwn i wedi bod yn sefyll wrth y cylch adeg eu gwerthu ond gyda'r rheolau newydd, yn anffodus, doedd hynny ddim yn bosib. Yr oeddwn yn ddigon hapus gyda'r pris o £100 am wyn 42kg.

Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at gael dychwelyd i Lysfasi ym mis Medi i gael cwblhau'r cwrs. Ac wrth gwrs mi fydd yn braf iawn cael cwrdd â ffrindiau, y tiwtoriaid ac i ail afael yn ochr ymarferol y cwrs."

Pob hwyl i ti, Ilan pan ei di yn ôl i Lysfasi a diolch am fod mor barod i rannu dy brofiad yn astudio yn y cyfnod clo.

# **Dysgwr y mis** – Stephanie Jones



Stephanie dw'i. Dwi'n dod o Hartley Wintney yn Hampshire yn wreiddiol. Ar ôl cyfnod ym Mryste cwrddais ag Owain (Pwlliwrch, Darowen) a symudon ni yma oddeutu 4 mlynedd yn ôl. Mae dau fachgen gyda ni, Peredur ac Elstan, a'r ci anwylaf Sparc.

1. **Pam wnaethoch chi benderfynu dysgu Cymraeg?**
   Achos ei fod yn un o'r amodau cael priodi Cymro lleol!

2. **Ble a sut aethoch chi ati i ddysgu Cymraeg?**
   Dosbarth nos ym Mryste ac wedyn gyda'r plant. Blwyddyn yn ôl es i ar gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.

3. **Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid eich bywyd?**
   Er mwyn gallu mwynhau Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C! (ac i glustfeinio ar sgyrsiau Owain ar y ffôn!)

4. **Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg?**
   Methu rholio r's a rh's ..........!

5. **Oes ganddoch chi hoff gân Gymraeg?**
   Llawer o ganeuon plant a dwi'n hoffi caneuon enwocaf Dafydd Iwan.

6. **Beth ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?**
   Bod yn rhan o'r gymuned leol.

7. **Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?**
   Siarad yn Gymraeg pob tro a siarad yn araf.

8. **Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?**
   Yn y cyfnod 'lockdown' fy hoff eiriau i yw *"Amser gwely blantos"*!

# Yn y Gegin

## gyda Nigeiola!

Wel sut ydach chi i gyd erbyn hyn bobol? Dyma ni wedi bron â chyrraedd diwedd y trydydd mis o'r 'locdown' a phawb i weld yn bihafio a ddim ond yn teithio pan mae gwir angen – yma yn Nghymru fach beth bynnag de. A mae'n braf bo ni'n gallu mynd i weld teulu a ffrindiau o fewn 5 milltir a'u cwrdd y tu allan hefyd dydy – syndod fel mae rhywun wedi colli gweld teulu a ffrindiau dros y cyfnod OND daw eto haul ar fryn bobol – ac mi ddown ni drwy hyn eto. 😊

Dwn i'm os 'dach chi fatha finna'n de, yn methu meddwl am rywbeth sydyn a gwahanol i ginio ne swper – teimlo bo fi'n gneud yr un petha o hyd ac mi rydan ni wedi cael mwy o farbeciws 'leni'n barod na chafon ni drwy llynedd i gyd! Beth bynnag dwi wedi twyllo braidd efo'r rysáit nesa ma – gan ddefnyddio – och a gwae! – 'puff pastry' wedi ei brynu!! Wel dydi hyd yn oed Mary Berry ddim yn boddran ei wneud o ei hun rŵan felly os dio'n ddigon da i Mary ni yna mae o'n ddigon da i Nigeiola hefyd!

Dyma ichi rysáit am swper ysgafn neu ginio sydyn yn defnyddio 'puff pastry' ac mi fydd posib gneud pwdin bach sydyn efo'r stribyn bach o grwst fydd dros ben hefyd.

Dwi ddim yn siŵr iawn beth i alw'r rysáit 1af ma … mae'n 'rhyw fath o bitsa ond efo crwst ne ma'n rhyw fath o 'quiche' ond heb yr ŵy – mi gewch chi fathu enw addas!

### Reit ta dyma beth sydd ei angen arnoch chi –

- Pecyn o 'puff pastry' (mi wnes i dwyllo hyd yn oed yn fwy a phrynu un oedd wedi'i rowlio'n barod!)
- Sôs coch neu piwri tomato (*tomato puree*) – tua 2-3 llwy fwrdd
- Caws wedi'i gratio (cheddar neu mozzarella neu'r ddau) – digon i orchuddio'r crwst
- Llenwad o'ch dewis e.e. 2 sleisen o ham, tomatos, madarch

**Byddwch angen cynna'r popty i wres 200°C neu 180°C ffan (edrychwch beth mae'n ddeud ar y pecyn)**

1. Agorwch y pecyn 'puff pastry' a'i dynnu allan a thorri darn i ffitio hambwrdd pobi (*baking tray*)
2. Marciwch ffrâm tua hanner modfedd o amgylch ochr allan y crwst a llenwch y canol gydag un ai sôs coch neu biwri tomato
3. Ychwanegwch lenwad o'ch dewis a rhowch gaws ar ei ben (mi rois i ham yna caws yna madarch, tomatos a mwy o gaws!)
4. Rhowch o yn y popty am tua 15-20 munud nes y bydd y crwst wedi coginio a'r caws wedi toddi'n neis.
5. Torrer a sglaffier! Swpar bach sydyn efo salad iachus ar yr ochr.

### Pwdin/ cacen fach sydyn

1. Os bydd gynnoch chi grwst dros ben fel roedd gen i yna torrwch o'n hirsgwaria tua 3 modfedd x 2 a choginiwch nhw yn y popty am tua 10 munud neu lai (bron imi losgi rhai fi!)
2. Ar ôl iddyn nhw oeri yna holltwch nhw yn eu hanner a rhowch jam a hufen wedi'i chwipio ar yr hanner isa ac eisin ar y 'caead'.
3. Yna rhowch y caead yn ofalus ar ben yr hanner gyda'r jam a hufen a dyna chi gacen fach syml ac andros o flasus!











**Beth am i chithau rannu eich rysetiau a llun o'r eitem orffenedig at papurblewynglas@gmail.com**

## Corris

Mr Gareth Price

**Clwb Pêl-droed Corris**

Llongyfarchiadau i glwb pêl-droed Corris ar orffen yn y trydydd safle yn adran 2 o gynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth. Oherwydd y Cofid-19 fe orffennwyd y tymor yn gynnar, ond yn ffodus iawn, bu'n dymor llwyddiannus iawn ers i'r clwb gael ei ail-sefydlu.

Roedd y clwb wedi cyrraedd y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth cwpan y gynghrair ac yn gwneud yn dda yng nghystadleuaeth tlws adran 2. Pwy a ŵyr os oedd 'na gwpanau ar eu ffordd i Gorris. Blwyddyn nesaf efallai! Daliwch ati!

Dymuna'r clwb ddiolch i bawb sydd wedi eu helpu yn ystod y tymor a chefnogi mewn unrhyw ffordd.

Mae diolch arbennig yn mynd i Mike a staff tafarn y Slaters Arms am noddi crysau tymor yma ac am ddarparu bwyd blasus yn dilyn pob gêm gartref.

Gobeithio bydd yna bêl-droed tymor nesaf ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb lawr i'n gwylio unwaith eto.

**Sioe Corris**

Yn anochel oherwydd amgylchiadau Cofid-19 ni fydd Sioe Corris yn cael ei chynnal eleni. Edrychwn ymlaen at eich croesawu y flwyddyn nesaf. Cadwch yn saff i gyd.

## Darowen

Nora Wigley, Lleiniau
rhos.dyrnogmail.com@email.com

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mrs Rita Pughe, Maesteg, a Mr Geraint Wigley, Lleiniau, sydd wedi colli eu cefnder, Mr David Trefor Jones, Glanmerin gynt, neu Llygnant, Cwrt yn fwy diweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at ei weddw Hefina a'r teulu i gyd.

**Newyddion rhifyn Gorffennaf i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 12fed o Orffennaf os gwelwch yn dda.**

# Cwmni Dulas yn helpu brwydr yn erbyn Covid-19

Fe allai cwmni lleol chwarae rhan allweddol yn y frwydr fyd-eang yn erbyn coronafeirws. Mae Dulas - sydd â'i bencadlys yma yn Nyffryn Dyfi - yn dylunio ac yn gwerthu oergelloedd pŵer solar, sy'n cadw brechlynnau ar y tymheredd cywir mewn rhannau anghysbell o'r byd. Mae'r cwmni yn cydweithio gyda GAVI, y gynghrair brechlyn fyd-eang, ers blynyddoedd, gan allforio oergelloedd pŵer solar i lefydd yn Affrica, Asia a De America.

Mae'r dechnoleg yn hanfodol i gadw brechlynnau ar gyfer afiechydon fel polio a theiffoid yn oer mewn lleoliadau heb gyflenwad pŵer dibynadwy. Mae'r oergelloedd yn gweithio trwy rewi yr hylif tu mewn yn defnyddio pwer solar yn ystod y dydd ac wrth iddo ddadmer ychydig dros nos, mae tu mewn yr oergell yn aros yn oer. Er mwyn i'r brechlynnau fod yn hyfyw mae'n rhaid eu cadw rhwng 2°C ac 8°C o'r amser y cânt eu gwneud tan y pwynt y cânt eu defnyddio. Mae hyn hefyd yn debygol o fod yn wir am unrhyw frechlyn Covid-19 yn y dyfodol.

Ers 2001 mae'r cwmni wedi gwerthu tua 15,000 o oergelloedd pŵer solar i 83 o wledydd. Dywedodd Gerallt Evans, un o gyfarwyddwyr Dulas: "Maen nhw wedi mynd ar hyd y byd i gyd - maen nhw mewn rhai o'r gwledydd tlotaf yn y byd ac yn gwneud gwaith hollol hanfodol. Mae'r brechiadau angen cael eu cadw ar dymheredd isel yr holl ffordd o'r ffatri hyd nes bod y pigiad yn mynd i fraich y plentyn. Os nad yw hyn yn digwydd mae'r brechiad yn marw i bob pwrpas. Os ydyn nhw'n rhy oer maen nhw'n rhewi ac os yn rhy boeth maen nhw'n difetha, felly rhaid iddyn nhw aros o fewn y tymheredd cywir."

Sefydlwyd Dulas ym 1982 gan gyn-weithwyr yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen. Ers hynny mae'r cwmni wedi datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ledled y byd.

Guy Watson - un o gyd-sylfaenwyr Dulas - gafodd y syniad gwreiddiol am oergell oedd yn rhedeg ar bŵer solar tra roedd yn gweithio mewn parth rhyfel ym 1984. Aeth Guy ymlaen i ddyfeisio'r oergell pŵer solar, ac mae'n falch o'r rôl y mae Machynlleth wedi'i chwarae - ac yn parhau i'w chwarae - yn y dechnoleg arloesol sy'n achub bywydau.

Os a phan gynhyrchir brechlyn Covid-19 bydd technoleg yr oergell solar o'r canolbarth yn hanfodol yn ôl Mr Evans o Dulas: "Ry'n ni mewn trafodaethau cyson gyda GAVI ac Unicef ynglŷn â brechiad ar gyfer Covid-19. Os oes brechiad yn dod, mae'n debygol iawn y bydd angen y *cold chain* fel mae'n cael ei alw, felly ry'n ni'n gobeithio bod yn rhan o'r ymgyrch i wella'r byd o Covid-19 hefyd."




**Dyma un o'r oergelloedd yn cael ei ddefnyddio yn Nigeria er mwyn cadw brechlynnau a gwaed ar y tymheredd cywir.**

## Pennal

**Cydymdeimlo**

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr David Trevor Jones, Llygnant, Cwrt, yn Uned Twymyn, Machynlleth, ddiwedd mis Mai. Yn enedigol o'r Glaspwll, yr oedd wedi byw yn Y Cwrt ers nifer o flynyddoedd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig, Hefina, fu'n ddiflino yn ei ofal ohono, ac â Dylan, Ifor, Bethan ac Anwen a'u teuluoedd i gyd.

**Gwellhad Buan**

Braf iawn yw deall bod Carol Bodza, Glansychan, a Beryl Griffiths, Gwyndy, sydd ill dwy adre bellach wedi iddynt gael llawdriniaeth yn yr ysbyty.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau i Dylan Rhys Roberts, 6 Marian gynt, ar ei ddyweddïad â'i gariad, Hannah, yn ddiweddar.

# Y GOLOFN AMAETH

## Gan Elin Haf Williams ac Owain Pugh, Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio

Mae hi'n anodd credu ei bod hi'n fis Mehefin yn barod! Rwy'n siŵr bod y mwyafrif ohonoch wedi hen orffen y cyfnod wyna ac erbyn hyn yn paratoi at y cneifio neu'r silwair. Mae'n saff i ddweud fod y misoedd diwethaf wedi bod yn rai heriol iawn i bawb o ran effeithiau Covid-19. Er yr ansicrwydd ymysg y pandemig hwn, mae Cyswllt Ffermio yn annog pawb i gadw mewn cysylltiad â chefnogi'r diwydiant wrth estyn llaw rithwir yn ystod y cyfnod anodd a phryderus hwn. Rydym ni bellach wedi addasu ein fframwaith gan greu cynllun darparu digidol er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r diwydiant a chynnig yr holl gymorth posib yn ystod y pandemig hwn.

Mae'r rhaglen cymorthfeydd un i un newydd sydd wedi cael ei sefydlu gyda'r bwriad o fod yn adweithiol i'r ymholiadau sydd gennych. Mae'r cymorthfeydd yma yn cynnwys sesiwn ymgynghori hyd at un awr a gaiff ei gynnal naill ai'n ddigidol neu dros y ffôn gydag ymgynghorwyr profiadol. Gellir trafod pynciau megis cyngor maeth, cyngor busnes a chyfreithiol, rheoli glaswelltir, coetir, cynllunio, marchnata ac arallgyfeirio ynghyd â chyngor technoleg gwybodaeth a llawer mwy.

Er mwyn parhau i gysylltu â'n haelodau a'r diwydiant rydym wedi dechrau cynnal gweminarau a fydd yn eich hysbysu o rai o'n prosiectau neu'n trafod rhai o newyddion diweddaraf y diwydiant. Ymunwch â ni ac arbenigwyr y diwydiant mewn amrywiaeth eang o weminarau amserol wedi'u hanelu at ddarparu cymorth a gwybodaeth defnyddiol i chi yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Rydym eisoes wedi gweld tyrfa o tua 130 aelod wedi ymuno â ni ar gyfer y gweminar 'Rheoli chwyn mewn glaswelltir'. Os ydych chi wedi methu rhai o'n gweminarau sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn, peidiwch â phoeni, gellir eu gwylio eto ar ein sianel YouTube neu wrth fynd draw i wefan Cyswllt Ffermio. Enghreifftiau o rai o'r pynciau trafod sydd gennym ar y gweill dros yr wythnosau nesaf yw 'Sut i greu Gwefan', 'Cyfryngau Cymdeithasol' a 'Dadansoddi Perfformiad Bîff' i enwi ond ychydig. Un gweminar rydym yn edrych ymlaen yn fawr ato yw 'Y Ffermwr Gwydn - Doug Avery' *(The Resilient Farmer)* sef y ffermwr o'r Seland Newydd fydd yn ymuno â ni ddiwedd mis Mehefin er mwyn rhannu ei brofiadau gyda ni.

Bydd y cyfnod ymgeisio cyntaf ar gyfer rhaglen sgiliau Cyswllt Ffermio ar agor tan 17:00 ar y 26ain o Fehefin, ond yn agor eto fis Medi. Mae dros 80 o gyrsiau hyfforddiant wedi'u hariannu hyd at 80% ar gyfer busnesau cofrestredig ac os mae'ch busnes wedi cofrestru gyda Chyswllt Ffermio yna gallwch chi, eich teulu a gweithwyr PAYE ddewis unrhyw hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Mae cyllid ar gael i gwblhau cyrsiau megis; Rheoli Llygod ar Ffermydd, Cwrs tocio traed gwartheg, Sganio Defaid, Defnyddio Dip yn Ddiogel, Defnyddio Plaladdwyr a Defnyddio Tryc Telesgopig ynghyd â llawer, llawer mwy. Ewch i'r wefan neu cysylltwch am restr lawn o'r cyrsiau.

Heb os, y newyddion mwyaf cyffrous sydd gennym fis yma yw bod Cyswllt Ffermio nawr yn cynnig cyfle i ymuno ag un o ddeg o grwpiau trafod defaid newydd ar hyd a lled Cymru. Nod y grwpiau fydd dylanwadu ar berfformiad y ddiadell er mwyn sicrhau'r elw mwyaf posibl drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol y busnes. Bydd y grwpiau trafod yn cael eu cynnal dros gyfnod o 18 mis a byddant yn ceisio mynd i'r afael â'r meysydd allweddol hynny o reoli diadell sy'n gallu cael yr effaith fwyaf. Bydd pob cyfarfod yn cynnwys amrywiaeth o arddangosiadau ymarferol, casglu data a phrofion a fydd yn eich galluogi i feincnodi a dadansoddi cynnydd y busnes unigol a'r grŵp cyffredinol. Prif fanteision bod yn rhan o'r grŵp trafod defaid yw gwella effeithlonrwydd busnes drwy roi sylw i fanylion ac elw, cyfarfodydd wedi'u hwyluso gan arbenigwr defaid, ehangu syniadau gydag unigolion o'r sector ynghyd â meincnodi. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o un o'r grwpiau trafod newydd ewch ati i ymgeisio, fe fydd y cyfnod recriwtio ar agor tan y 10fed o Orffennaf. Gallwch ddod o hyd i ffurflen gais ar y wefan neu wrth gysylltu â ni.

**Rheoli glaswelltir yn ystod cyfnod o dywydd sych gan Rhys Williams:**

Ymysg y pandemig, rydym hefyd wedi gweld cyfnod heriol yn dilyn y cyfnod sych yn ystod mis Mai. Fel arfer ar ddiwedd mis Mai byddai twf y borfa yn ei hanterth, gyda chyfraddau twf o dros 100kgDM/ha/y diwrnod a byddai'r pryderon yn ymwneud â chynhyrchu gormodedd o laswellt. Y realiti eleni mewn sawl rhan o Gymru yw bod cyfnod hir o sychder wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghyfraddau twf i lai na 30kgDM/ha/y diwrnod.

Yn ôl Rhys Williams, Precision Grazing, dywedai bod y rheiny sydd â gorchudd iach o laswellt wrth agosáu at gyfnod o dywydd sych mewn sefyllfa lawer mwy cadarnhaol wrth reoli tyfiant glaswellt. Nid yn unig y bydd ganddynt laswellt dros ben, ond y byddent yn medru tynnu'r gorchudd fferm gyfartalog i lawr am gyfnod, yn gyffredinol fe fydd gan y glaswellt wreiddiau dyfnach a fyddai'n medru cadw lleithder yn well. Mae hi'n holl bwysig i asesu'r sefyllfa yn rheolaidd a darganfod beth yw eich gorchudd, beth yw'r cyfraddau tyfu, ynghyd â chyfrifo'r glaswellt sydd ei angen. Os ydych yn agosáu at gyfnod o dywydd sych heb orchudd glaswellt digonol, dyma ychydig o bethau y gellir ei wneud er mwyn ymdopi â'r sefyllfa.

Yn gyntaf gellir lleihau'r galw am laswellt, un ai trwy ddod â thir silwair yn ôl i mewn i'r system bori, gan gyflwyno gwartheg i'w bori. Gellir hefyd dorri'r silwair yn ifanc neu wrth werthu da byw hen, tew neu stôr yn gynt na'r arfer. Gellir hefyd blaenoriaethu stoc, os ydych yn agosáu at ddyfnu ŵyn, mae hi'n holl bwysig bod ganddynt laswellt o ansawdd uchel i'w trosglwyddo arno. Mae hi hefyd yn bwysig i grwpio stoc ar sail eu sgôr a blaenoriaethu'r stoc tenau er mwyn codi cyflwr. Ble bo angen, dylid ystyried ychwanegu porthiant atodol. Os yw stôc sydd â blaenoriaeth yn cael eu tanfwydo fe fydd yn arwain at leihad mewn cynhyrchiant yn syth gyda'r posibilrwydd o effeithio ar eu perfformiad yn ystod y tymor nesa. Os ydych yn bwriadu ychwanegu porthiant ychwanegol, mae hi'n bwysig i wneud hynny cyn gynted â phosib yn ystod y cyfnod sych er mwyn cynnal gorchudd glaswellt. Fe fydd hyn yn galluogi i ni dyfu fwy o laswelltir unwaith y bydd tyfiant yn dechrau eto. Mae hi hefyd yn bwysig i ddewis porthiant ychwanegol sydd yn seiliedig ar anghenion y da byw. Yn olaf mae'n bwysig i annog tyfiant glaswelltir, gellir cynyddu tyfiant drwy fabwysiadu system pori cylchdro. Gellir hefyd cyflwyno cyfnod gorffwys i'r glaswellt o fewn y system, sicrhau a chynnal gorchudd glaswellt ar rannau o'r fferm a hefyd eich galluogi chi i reoli'r gyllideb fwyd. Ni ddylid ychwanegu Nitrogen ar y tir yn ystod cyfnod o dywydd sych, gan y bydd ei werth yn cael ei golli. Gallai'r tywydd yma newid yn sydyn felly mae angen asesu'r sefyllfa yn rheolaidd.

# Dinas Mawddwy

Mrs Gwyneth Jones, Lawnt y Plas
01650 531270 /
gwynethjones442@btinternet.com

**Merched y Wawr Mawddwy**
Fel pob mudiad arall, nid yw'r Gangen wedi medru cyfarfod ers dechrau'r cyfyngiadau symud yn sgil y coronafeirws, ond mae nifer o'r aelodau wedi bod yn brysur iawn yn gwneud gwaith llaw tuag at gynllun Blodau Gobaith Merched y Wawr. Cynllun ydi hwn i greu blodau o bob math ac o bob cyfrwng yn lliwiau'r enfys, gyda'r nod o ddefnyddio'r cynnyrch i greu enfys enfawr yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2021.

Ar 16 Mai, cynhaliodd y Swyddfa Genedlaethol Ŵyl Haf Rithwir lwyddiannus iawn. Enillodd Cangen Mawddwy y drydedd wobr drwy Ranbarth y Gogledd am ddenu'r nifer fwyaf o aelodau newydd yn ystod y flwyddyn a bu Jo Gingell, un o aelodau'r Gangen, yn lwyddiannus iawn yng Nghystadleuaeth Dysgwyr Merched y Wawr. Llongyfarchiadau mawr i Jo ar ei llwyddiant (fe welir llun o Jo ar y dudalen flaen).

# C.Ff.I Dinas Mawddwy

Cawsom gwis ar 'zoom' gyda threfnydd y sir, Elain Fflur, ar y 13eg o Fai. Roedd hwn yn gyfle i ni sgwrsio ar ôl cyfnod hir o beidio gweld ein gilydd a chael ychydig o hwyl. Llongyfarchiadau i Arwen ar ennill y cwis, a diolch yn fawr i Elain am gynnal y cwis i ni.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn cystadlu yn Rali Rithiol y sir. Cafodd Ruth gyntaf yng nghystadleuaeth 'dywediad neu idiom mewn unrhyw gyfrwng' a chafodd Elen gyntaf ar gystadleuaeth ffotograffiaeth ar y thema 'Adre'.

Mae pwyllgor prif swyddogion sir Feirionnydd hefyd wedi lansio cyfrif snapchat sef 'cffimeirionnydd' gyda rhywun o'r pwyllgor yn gyfrifol amdano bob wythnos. Mae'n rhywbeth hwyliog sy'n gadael i chi gael sbec i mewn i fywyd aelodau'r sir.

Byddem fel clwb hefyd yn hoffi llongyfarch Mared Fflur Jones, Fronalchen, sy'n aelod gweithgar o'r clwb ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth rhyddiaith yr Urdd, Eisteddfod-T eleni. Da iawn ti, Mared, rydyn ni i gyd yn falch iawn ohonot ti!

*I ddarllen stori fer arall gan Mared, trowch i dudalen 7.*





# Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol yn cefnogi Nyrsys

Ym 1926, cafodd Miss Elsie Wagg, yr oedd ganddi frawd llwyddiannus iawn yn y byd arian, y syniad o agor gerddi preifat fel bod y cyhoedd yn talu am eu gweld er mwyn codi arian ar gyfer Sefydliad Nyrsio'r Frenhines. Felly dechreuodd y Cynllun Gerddi Cenedlaethol ac agorwyd dros 600 o erddi yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys Erddig a Phlas Heaton yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol wedi codi arian i elusennau iechyd a nyrsio byth ers hynny, gan godi dros £58 miliwn. Croesawyd ymwelwyr i dros 3,500 o erddi yng Nghymru a Lloegr yn 2019 a, diolch i haelioni perchnogion gerddi, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, rhoddwyd £3 miliwn i elusennau fel Cymorth Canser Macmillan, Marie Curie a Hospice UK, yn ogystal â Sefydliad Nyrsio'r Frenhines.


Elsie Wagg


Bachie Uchaf, Llanfyllin (Llun: Caroline)

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf yn holl hanes yr elusen, dros 93 mlynedd, i bob un o'r gerddi fod ar gau. Arhosodd llawer o erddi ar agor hyd yn oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd a phandemig y ffliw moch yn 2009-2010. Er hynny, parhau i weithio'n galed mae gwirfoddolwyr y Cynllun Gerddi Cenedlaethol, gan godi arian i gefnogi nyrsys. Bu rhai perchnogion gerddi yn rhannu eu gerddi ar-lein gyda theithiau rhithwir tra bu eraill yn gwerthu planhigion ger eu gatiau. Ewch at eu gwefan, www.ngs.org.uk a mwynhau ymweliad rhithwir a dangos eich gwerthfawrogiad trwy roi rhodd.

Gwirfoddolwyr sydd wrth graidd ein sefydliad ac ni allem fodoli hebddyn nhw. Tîm bach sydd gennym yng Ngogledd Powys, ac maen nhw wrthi'n annog a chefnogi perchnogion i agor eu gerddi er budd y Cynllun Gerddi Cenedlaethol. Byddwn yn helpu hyrwyddo'r gerddi agored drwy'r wasg, ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn rheoli'r arian a godir yn y sir. Pe hoffech ymuno â 'r tîm hwn, cysylltwch â Susan Paynton, ein Trefnydd Sir ar 01686 650531. Byddai'n wych cael siaradwr Cymraeg rhugl ar ein tîm!

Helen Anthony
Swyddog Cyhoeddusrwydd
Cynllun Gerddi Cenedlaethol
Gogledd Powys
Ffôn: 01686 941795 / 07986 061051
E-bost: helen.anthony@ngs.org.uk

# Blewyn o'r Beirdd

## *gan Mari Lisa*

Wrth chwilota yn yr atig yn ddiweddar, mi ddigwyddais daro ar gowled o hen lyfrau llofnodion. Fy llyfrau i oedd dau ohonyn nhw. Roedd y lleill dipyn yn hŷn ac yn eiddo i aelodau o'r teulu sydd wedi'n gadael ni ers tro. Mae'n siŵr bod yna lyfrau o'r fath gan bob un ohonon ni. Llofnod rhywun enwog neu seren y dydd sydd fwyaf cyffredin erbyn hyn. Mi fyddai yna griwiau o blant yn arfer eu hel nhw ar faes yr Eisteddfod ers talwm, efallai ar damaid o bapur neu docyn a'u sodro yn y llyfr llofnodion ar ôl mynd adre.

Ond mae'r llyfrau hefyd yn cynnwys cynghorion at fyw, a'r rheini'n aml ar ffurf rhigwm neu farddoniaeth i'w gwneud yn haws eu cofio. Mae'r arfer yma'n hanu'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg pan fyddai dynion ifanc Ewrop yn casglu dywediadau gan feddylwyr y dydd ac yn eu cadw yn eu Beiblau personol. Maes o law, dechreuwyd cyhoeddi Beiblau gyda dalennau glân at yr union bwrpas yma, ac yn ddiweddarach dechreuwyd cyhoeddi llyfrau bychain yn unswydd at y diben o gasglu llofnodion. Mi gawson nhw ail wynt wedyn yn ystod oes Fictoria ac erbyn hynny roedden nhw'n cynnwys dipyn o bopeth, gan gynnwys lluniau.

Yn Saesneg y mae mwyafrif y rhigymau a'r cerddi yn y llyfrau llofnodion hynaf sydd gen i, mewn ysgrifen coporplêt hardd, ambell un yn dyfynnu o waith Wordsworth neu Shakespeare. Mae'r Gymraeg yn brinnach – effaith y pwyslais ar y Saesneg yn y system addysg bryd hynny mae'n siŵr. Mae enghraifft o rai o'r cerddi isod gydag enw'r person ysgrifennodd y pennill yn y llyfr llofnodion (nid yr awdur o reidrwydd). Tybed ydi'r enwau'n gyfarwydd i rai ohonoch chi?

"Hyn yn fyr ond o fy mynwes,
Gwaith fy llaw a'm calon gynnes;
Os gweli wall mewn hyn o eiriau,
Mae'r calla'i ben yn colli weithiau."
(G Wynn Owens, Tŷ Gwyn, Bangor, 1900)

"Myfi fy hunan wnaeth y das
Rhois y gwair bras yn isa'
A thebyg iawn yw einioes dyn
i we pry copyn cwta."
*(Hugh T Jones, Lerpwl, 1901)*


"Mae llawer ffordd o drin y byd, a llawer dull o fyw
Ac anhawdd gwybod ar bob pryd, pa ddefnydd yw wrth liw;
Wrth ddewis cyfaill yn y byd, sef cyfaill gwerth ei gael,
Mae'n anhawdd dewis ar bob pryd y gwych oddi wrth y gwael;
Pan welwch 'ysgwyd cynffon wen' a dyn i gyd yn fenyn,
Cofiwch yr hen ddihareb hon 'Nid aur yw popeth melyn'."
(J E Roberts, y Drenewydd, 1902)

Dyfyniad o waith Mynyddog, sef Richard Davies, Dôl Lydan, Llanbrynmair, ydi hwn yn ôl J E Roberts, ond alla i ddim bod yn siŵr gan nad ydw i wedi'i weld yn unman arall. Ystyr 'ysgwyd cynffon wen' ydi dangos yr ochor ffals, gwenieithio. Thema gyffredin yn y llyfrau llofnodion yw 'nad fi'n angof':

'Melys edrych yn yr albwm
'mhen blynyddau eto ddaw;
gweld llawysgrif rhyw hen gyfaill
fydd rhy bell i ysgwyd llaw.'
(Margaret, 1953)

Mwy am y llyfrau llofnodion y tro nesa!

# Fy Hoff Olygfa



Dwi'n hoff iawn o fynd am dro, ond heb gael cyfle i fynd ymhell yn ddiweddar wrth geisio cadw'n glir o'r llwybrau cyhoeddus dros gyfnod yr wyna ac, ar ôl hynny, ufuddhau i gyfyngiadau Cofid 19. Dyma fynd ati felly i chwilio am olygfa yma ym Mrynmeurig. Mae'r tŷ yma wedi'i adeiladu mewn 'chydig o bant tua 200 metr uwchlaw lefel y môr, ond mae'r tir yn codi i ryw 450 metr ar Fynydd Cemaes y tu ôl i'r tŷ ac o'r fan honno ceir golygfa 360º heb ei hail. Mae'n ymestyn ar hyd de Meirionnydd o Aberdyfi i Gader Idris a draw at yr Aran Fawddwy, yna gallwch edrych dros Gwm Tafolog i gyfeiriad Cefn Coch a Charno ac yna draw i gyfeiriad Moel Fadian, y fan a ddewiswyd gan Eirian mis diwethaf. Rydw i wedi dewis dau lun. Mae'r cyntaf yn dangos Dyffryn Dyfi a'r afon yn cwrdd â'r môr yn Aberdyfi, ac yn yr ail gwelir yr Aran Fawddwy yn y pellter. Dydy'r lluniau ddim yn gwneud cyfiawnder â'r olygfa mae arna i ofn. Yn anffodus fe dorrodd y tywydd cyn i mi fynd ati i dynnu llun felly dydy'r darluniau ddim yn glir iawn.
*Gill Jones, Brynmeurig*



**Blewyn Glas**
cysylltwch â ni
**papurblewynglas@gmail.com**

# Aberhosan

Mrs Eryl Evans, Pen-y-glôg
01654 702033 penyglog@gmail.com

**Llongyfarchiadau**
I Aled, Nantyfyda ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 19 Mai.



**Mynd yn poti**
Dyma lun hynod o brydferth o 'clematis' a 'hosta' sy'n tyfu ym Mraichithel.
Sylwch ar y ddau bot blodau ar waelod y llun. Meddai Meinir 'Daeth y rhain o dŷ Taid a Nain yn Ninas Mawddwy. Maen nhw dros 50 oed o leia' ac o bosib wedi cael eu defnyddio yn y garej yn y fan hynny.' Am ddiddorol yn de!



**Sioe Aberhosan**
Yn anffodus, mae pwyllgor y sioe wedi gwneud penderfyniad anodd ond angenrheidiol o dan yr amgylchiadau i ohirio sioe eleni o ganlyniad i Covid-19. Ond, cadwch lygad ar ein tudalen facebook ac yn rhifyn Gorffennaf o *Blewyn o Obaith*, gan y bydd ambell gystadleuaeth ddigidol yn cael ei gyhoeddi. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i gyd yn ôl yn 2021.

**Y Ganolfan**
Dyma restr enillwyr Clwb Cant y Ganolfan, Aberhosan 2019 – 2020:


Tachwedd 2019
£20 Gwenno Lewis, Cefnmaesmawr
£15 Aled Jones, Nantyfyda
£10 Lynwen Emslie, c/o Penyglog
£5 Ethelwen Davies, Frondeg

Rhagfyr 2019
£20 Myrfyn Davies, Frondeg
£15 Cheryl Micah, Pant Glas
£10 Gerwyn Hughes, c/o 1 Maes y Coed
£5 Nela Dafydd, Maesllwyni

Ionawr 2020
£20 Eldrydd Lewis, Y Dalar
£15 Nerys a Richard Lewis, Erwporthor
£10 Iwan Evans, Cleiriau
£5 Eirian Hughes, 1 Maes y Coed

Chwefror 2020
£20 Cerys c/o Glynmadian
£15 Gwynant Jones, Nantyfyda
£10 David Evans, Penyglog
£5 Sara, c/o Glynmadian

Mawrth 2020
£20 Teulu Rhiwgam
£15 Dafydd Evans, Celiriau Uchaf
£10 Meirwen Jones c/o Mynachdy
£5 Angharad Mair c/o Glynmadian




**Blewyn Glas**
Newyddion rhifyn Gorffennaf i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 12fed o Orffennaf os gwelwch yn dda.

# Talywern

Nora Wigley, Lleiniau, Darowen
rhos.dyrnogmail.com@email.com

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Gwern, Rhosdyrnog, ar dderbyn yr 2il wobr am ei 'Robot' yng nghystadleuaeth 'Campwaith Celf' blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod-T yr Urdd. Da iawn ti, Gwern!



# Penegoes

Mrs Olwen Roberts, Tegfan
01654 702616

**Cleifion**
Dymunwn wellhad buan i Roberta Williams, Gwernafon wedi triniaeth i'w chlun yn Ysbyty Gobowen.
Balch ydyn ni o weld Mairwen Pughe, Bwlchlluan o gwmpas unwaith eto wedi cyfnod yn Uned Twymyn. Anfonwn ein cofion atoch eich dwy a daliwch i wella.

**Wyres**
Llongyfarchiadau i Hywel a Heather, Rhos Helyg ar enedigaeth wyres fach arall. Ganwyd Lili Mai i Mari a Dylan yn Llanon, Ceredigion – chwaer fach hoffus i Ioan.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau i Olga Maiden sydd wedi cyrraedd oedran arbennig - mwynhewch y dathlu!

# Llanymawddwy

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhys a Bethan Davies, Y Felin ar enedigaeth merch fach, Llio Rhys - chwaer i Elain Rhys. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

# Edrych 'nôl ar y Blewyn Glas



Blewyn Glas
PAPUR NEWYDD BRO DDYFI
Rhifyn 27 Mehefin 1980 15c
RALI'R BROWNIS
Rhedwyr y Cyhoeddi
Côr 'Steddfod
CLETTWR CAFE
Tom Aylward Sports

1980



BLEWYN GLAS
Rhifyn 143 Mehefin 1990 25c
MAER MACHYNLLETH
CROESO NÔL
PRIFATHRAWON NEWYDD
GLANTWYMYN LLANBRYNMAIR
LLONGYFARCHION GWILYM

1990



Rhifyn 251
MEHEFIN 2000
Pris 30c
Anrhydeddu
Pob Hwyl
Ymddeoliad Hapus
TYSTEB
Cyngerdd cyffrous!
Diolch

2000



Rhifyn : 361
Mehefin 2010
Pris 50c
Blewyn Glas
Golygyddion mis Mehefin : Manon Holt a Gwenfair Glyn
Newyddion Gorffennaf erbyn : 13-7-10
Dyddiad Cyhoeddi : 23-7-10
Golygyddion mis Gorffennaf : Gill Jones ac Eirian Jones
Llongyfarchiadau
Ymddeoliad Hapus
Cân ar Dân 2010

2010

Wel dyma ni wedi cyrraedd mis Mehefin, a phedwar rhifyn arall i edrych 'nôl arnynt. Beth oedd ar y tudalennau blaen ym Mehefin '80, '90, '00 a '10 'sgwn i?

**1980 -** Roedd llawer o sôn yn y rhifyn yma am y brifwyl yn dod i Ddyffryn Dyfi y flwyddyn ganlynol, ac ar y dudalen flaen roedd Eisteddfod Genedlaethol Mathafarn yn cael ei chrybwyll ddwywaith - Unwaith gan fod rhedwyr o Faldwyn, gan gynnwys Cyril Jones a Graham Jones o Fachynlleth yn mynd i fod yn rhedeg o amgylch ardal yr Eisteddfod er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ŵyl gyhoeddi oedd yn digwydd yr wythnos ganlynol, a'r eilwaith mewn hysbyseb i ddenu diddordeb darllenwyr i ymuno â Chôr yr Eisteddfod. Y prif newyddion ar y dudalen flaen oedd 'Rali'r Brownis' Roedd *'Revels'* sef diwrnod o chwaraeon a gweithgareddau'r aelodau, wedi'i chynnal yng Nghanolfan Glantwymyn ble ddaeth 70 o ferched yr ardal ynghyd i fwynhau a dysgu sgiliau newydd. Oes gan rai o'n darllenwyr ni go' o'r diwrnod yma? Byddai'n ddiddorol clywed mwy am y digwyddiad. Ar waelod y dudalen flaen, roedd dau hysbyseb, un i Gaffi Cletwr, sy'n dal i fod yn adnabyddus heddiw yn Nhre Ddôl a'r ail hysbyseb i siop 'Tom Aylward Sports', siop dillad ac offer chwaraeon ar Heol Maengwyn. Dyma'r tro cyntaf i mi fel plentyn yr 80au hwyr wybod bod ffasiwn siop wedi bod ar fod ym Machynlleth, diddorol iawn!

**1990** - Penodiadau i swyddi newydd o fewn yr ardal aeth â phenawdau tudalen flaen Mehefin 1990. Y llun cyntaf oedd o Faer newydd tref Machynlleth, sef Y Cyng. Hugh Parsons. Ar y pryd, dyma'r Maer ieuengaf i'w benodi yn hanes y Cyngor – tybed ydy hyn yn dal i fod yn wir hyd heddiw? Penodiadau eraill yma oedd, Dyfrig Wynn Lewis wedi'i benodi i dîm Gwasanaethau Busnes Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ar Heol Maengwyn a Chadeirydd y Blewyn Glas, Gwilym Fychan, wedi'i ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Tai y Cyngor gyda Chyngor Sir Powys. Yna ar waelod y dudalen, llongyfarchwyd a chroesawyd dau bennaeth newydd i'w swyddi yn Ysgol Glantwymyn ac Ysgol Llanbrynmair - Rhiannon Causer oedd yn athrawes yng Nglantwymyn eisoes a Mr Edwin Hughes ddaeth o Ysgol Aberhafesp i Lanbrynmair. Roedd digon o waith llongyfarch ar ôl darllen y dudalen flaen yma!

**2000** - Ymddeoliadau ac anrhydeddau oedd thema'r dudalen flaen yma. Llawenhau wedi i Mr Alun Lewis gael ei anrhydeddu gyda'r Fedal Gee yng Nghapel Salem Caernarfon am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul a hefyd roedd llun aelodau Cylch Llenyddol Bro Ddyfi yn anrhegu Miss Blodwen Jones a Mrs Blodwen Williams am eu gwasanaeth i'r Cylch fel ysgrifennydd a thrysorydd am gyfnod maith o flynyddoedd. Dymunwyd yn dda hefyd ar y dudalen flaen hefyd i Cen, Marilyn, Dylan a Heather wedi iddynt ffarwelio fel gwesteion tafarn y Llew Du yn Nerwenlas. Yna ar waelod y dudalen, soniwyd am ddau ymddeoliad sef, swyddogion Capel Creigfryn, Carno yn ffarwelio â'r Parch a Mrs Wyn Evans ac yna codi ymwybyddiaeth y darllenwyr o dysteb oedd yn cael ei drefnu ar gyfer ymddeoliad Miss Meiriona Jones fel Dirprwy Brifathrawes o Ysgol Bro Ddyfi ar ddiwedd tymor yr haf.

**2010** - Roedd y Fedal Gee yn cael sylw ar y dudalen flaen yn 2010 hefyd, ond y tro hwn, Mr Stephen Tudor oedd wedi cael ei wobrwyo a hynny am ei waith diflino gyda'r Ysgol Sul yng Nghwmllinau ac roedd llun ohono'n cyd-lawenhau gyda Tegwen a Sioned. Hefyd roedd Sue, Cockayne, Dinas Mawddwy wedi ysgrifennu pwt yn sôn am ei hymddeoliad fel is-bostfeistres yn Swyddfa Bost Dinas wedi 20 mlynedd a'r parti sypreis a gafodd ei drefnu gan drigolion y pentref i ddiolch iddi am ei gwasanaeth i'r ardal. Ar y dudalen hon, roedd hefyd erthygl sydd dal yn digwydd yn flynyddol heddiw sef hysbys i fyfyrwyr Lefel A yr ardal i ymgeisio am Ysgoloriaeth y Tabernacl er mwyn parhau â'u hastudiaethau ym maes cerddoriaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau. A phwy sy'n cofio'r ŵyl flynyddol 'Cân ar Dân' yn Ninas Mawddwy? Ar waelod y dudalen yma roedd hysbyseb i'r digwyddiad ble roedd Celt a Hufen Iâ Poeth yn rhan o restr y bandiau – o mor dda fyddai digwyddiad tebyg yn lleol eleni a'r tywydd mor braf!

# Codi Calon




Osian Glyn, Tyn Twll, Dinas Mawddwy yn brysur yn helpu dad gyda'r tocio



Deio Elis, Tyn Twll Dinas Mawddwy yn dysgu cneifio yn ifanc!

# Gweithio o adref?




Mae'r llun yma'n edrych ar "weithio o adref" o safbwynt gwahanol! Oes gennych chi gapsiwn i'r llun yma? Anfonwch eich cynigion atom erbyn y rhifyn nesaf – papurblewynglas@gmail.com

# Dod i 'nabod ...

## HEFIN LEWIS, CEFNMAESMAWR, DERWENLAS

**Hefin Lewis neu Hefin Cefnmaesmôr ydw i, a dwi'n byw gyda fy ngwraig Meleri a dau o blant, Rhys a Gwenno. Ffermio rydw i wedi bod yn gwneud erioed a newidith hynny ddim bellach...**



**Beth yw dy atgof cyntaf?**
Un o'r atgofion cyntaf ydy cerdded adre o'r dre gyda fy Mam yn ddwyflwydd oed ar ôl bod yn gweld Dad yn yr ysbyty ym Machynlleth – doedd mam ddim yn dreifio.

**Beth oeddet ti eisiau bod pan oeddet yn iau?**
Fy mreuddwyd oedd bod yn bostman neu ddreifio lori.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair**
Styfnig, tawel ac mae'n gas gen i fod yn *"centre of attention"* i unrhyw beth!!

**Y peth mwyaf gwirion wnes ti erioed?**
Pan o'n i'n fach, wnes i gwmpo i mewn i'r afon a bu bron i fi foddi! Drwy rhyw ryfedd wyrth, mi ges i fy achub gen aelod o'r teulu a hyd heddiw rydw i dal yn ofni'r dŵr a 'rioed wedi cael gwersi nofio.

**Beth sy'n dy wylltio?**
Un o'r pethau sy'n fy ngyrru i fyny'r wal ydy defaid yn mynd i lefydd nad yden nhw i fod... caeau seilej, coed Tal y Bont ac aml i le arall....

**Beth sydd yn gwneud i ti chwerthin?**
Dwi wrth fy modd yn gwylio comedïwyr fel Tudur Owen a John Bishop.

**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Mae'r plant yn dweud fy mod yn swnllyd iawn wrth ddylyfu gên ac yn ei wneud yn aml yn ystod y dydd!!

**Dy hoff le yng Nghymru?**
Adre! Sefyll uwchben Derwenlas yn edrych yn nôl ar Ddyffryn Dyfi a Machynlleth yn ei ogoniant. Does dim byd gwell hefyd na gwylio'r haul yn machlud ar noson braf uwchben Aberdyfi ac Ynyslas.

**Noson orau i ti gael erioed?**
Genedigaeth y plant (er fod un ohonynt wedi bod yn ddigon *stressful*) a ches i ddim byd i fwyta drwy'r dydd!

**Beth yw dy hoff lyfr/cân/ffilm?**
Dydw i ddim yn un sydd yn darllen yn aml iawn nac yn gerddorol, ond rydw i yn mwynhau gwylio rhaglenni teledu sydd yn adnewyddu hen geir yn ogystal â rhaglenni teithiau ceir neu drên sy'n mynd drwy ardaloedd gyda golygfeydd trawiadol fel yr Alban, mynyddoedd yr Alpau neu'r Rockies yng Nghanada.

**Dyweda rhywbeth amdana ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod**
Yn 1982 wrth 'bilio coed' ar dop Cefnmaesmôr nes i rhywsut gael fy mysedd yn sownd yn y peeler, ac o ganlyniad rydw i wedi colli tri o fy mysedd ar y llaw dde. Treuliais 3 diwrnod yn yr ysbyty a misoedd mewn poen ac yn methu gwneud llawer o ddim.


**Beth yw dy hoff fwyd?**
Dydw i ddim yn un am *starter* ond rydw i wrth fy modd gyda stecen *"well done"* a'r trimings i gyd ac yna treiffl i bwdin.

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Rydw i yn ddyn fy milltir sgwâr a byddai cerdded llwybrau lleol gyda fy nheulu, gyda phryd o fwyd blasus i ddilyn, a llonydd i gysgu ar brynhawn Sul yn benwythnos perffaith.


Diolch i ti Hefin am dy atebion naturiol. Gobeithio bod y defaid wedi bihafio'n ddiweddar a chofio dilyn y rheolau hunan-ynysu hefyd!

# Posau'r Plant

Mae 8 gwanhaniaeth yn y lluniau isod, a fedrwch chi eu gweld?



Mae'n amlwg o'r cyfyngau cymdeithasol fod llawer o deuluoedd yr ardal wedi cael ambell noson o wersylla adref yn eu gerddi neu gaeau dros gyfnod y clo mawr. Beth am uno'r smotiau ar y babell yma a'i lliwio fel eich pabell ddelfrydol? Rhannwch lun o'ch pabell orffenedig ar ein tudalen facebook i ni gael gweld y babell fwyaf lliwgar yn Nyffryn Dyfi!





## Hysbysebwch yn y Blewyn Glas!

**Prisiau hysbysebu**:
Hyd at ⅛ o dudalen - £10 | Hyd at ¼ tudalen - £20
Hyd at ½ tudalen - £40 | Hyd at dudalen gyfan - £80

Anfonwch eich hysbyseb i:
**papurblewynglas@gmail.com**

Amcangyfrifir fod dros 5,000 o bobl yn darllen y Blewyn Glas yn fisol. Cyfle gwych ichi gyrraedd cynulleidfa newydd mewn ardal eang. Gan fod y rhifynnau'n ddigidol ar y funud mae'n ffordd effeithiol o hyrwyddo eich busnes ar-lein oherwydd gallwn gynnwys dolen i'ch gwefan fel rhan o'r hysbyseb





## Atebion y Cwis Chwaraeon

1. 50m
2. Eddy Merckx
3. 6
4. Barcelona
5. Billiards a ping-pong
6. Tennis
7. Alun Wyn Jones – 138 cap
8. Camp Nou
9. Stadiwm Azteca yn ninas Mecsico
10. Gareth Bale – 33 gôl

## Atebion y Croesair

**AR DRAWS** 1 Cyndyn 4 Dathlu 8 Rotor 9 Abermo 10 Sur 11 Ddoe 12 Allan 13 Camlas 15 Eto 18 Iglw 19 Cenawon 22 Edifar 23 Caleb

**I LAWR** 1 Corws 2 Natur 3 Ymroddiad 5 Anelau 6 Lambastio 7 Dameg 13 Criced 14 Malais 16 Baw 17 Rasal 20 Nebo 21 Cam